## YR ATODLEN

Erthygl 2

### **Ardal a ddynodir yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio ac yn ardal gorfodi arbennig.**

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Fwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gyfan ac eithrio—

(a) y darn hwnnw o'r A465 o'r ffin â Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wrth bwynt sydd tua 15 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â'r B4276 Merthyr Road, i'r ffin â Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wrth bwynt sydd tua 1809 o fetrau i'r dwyrain o ffordd ymadael tua'r gorllewin Glyn-nedd;

(b) y darn hwnnw o'r A470 o'r ffin â Dinas a Sir Caerdydd wrth bwynt sydd tua 237 o fetrau i'r gogledd o ganol cylchfan yr A470/A4054/B4262 Ynys Bridge, Ffynnon Taf, i'r ffin â Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wrth bwynt sydd tua 220 o fetrau i'r de o drosbont Goitre-Coed Road.